



BWRDD DIOGELU PLANT GOGLEDD CYMRU

CYNLLUN GWEITHREDU CENEDLAETHOL AR GAM-DRIN PLANT YN RHYWIOL



FERSIWN 1. IONAWR 2020

Trefniadau ar gyfer **Atal** Cam-drin Plant yn Rhywiol

Y ffordd orau o ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yw ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae angen i ni hyrwyddo gwell dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol ymhlith plant, eu teuluoedd, ymarferwyr, cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd, fel y gallant adnabod ac ymateb i risgiau cam-drin plant yn rhywiol.

Amcan 1: Herio agweddau cyhoeddus tuag at gam-drin plant yn rhywiol a chefnogi diwylliant lle nad yw cam-drin plant yn rhywiol yn cael ei ystyried yn bwnc tabŵ mewn modd y gall tramgwyddwyr fanteisio arno.

Cam Gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni	Y Wybodaeth Ddiweddaraf	Statws Coch Melyn Gwyrdd
A2. Hyrwyddo ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ym mhob rhanbarth ar hyd a lled Cymru.	Grwpiau Cyflawni Lleol BDPGC	Rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020	<p>Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru (BDGC) wedi rhoi cyflwyniadau i godi ymwybyddiaeth am y cynllun gweithredu ar gam-drin plant yn rhywiol i bob Grŵp Cyflawni Lleol yng Ngogledd Cymru yn ystod 2019.</p> <p>Cyfrifoldeb y Grŵp Cyflawni Lleol fydd codi ymwybyddiaeth yn ei ardal leol.</p> <p>Yna, bydd y Grŵp Cyflawni Lleol yn adrodd yn ôl i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru bob chwarter.</p>	

Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:	Dyddiad adrodd:			
A2. Mae'r Byrddau Diogelu Plant yn adrodd tystiolaeth o hyrwyddo'r ymgyrch.	31 Ionawr 2021 13 Ionawr 2022	Fel yr amlygir uchod, byddwn yn defnyddio'r Grŵp Cyflawni Lleol i ddarparu tystiolaeth i'r Bwrdd Diogelu o'r gwaith a wnaed.		
Amcan 2: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith plant o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach, a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn anghywir				
Cam Gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni	Y Wybodaeth Ddiweddaraf	Statws Coch Melyn Gwyrdd
A5. Hyrwyddo gwybodaeth i blant a rhieni/gofalwyr am gydberthnasau iach/nad ydynt yn iach.	Grwpiau Cyflawni Lleol BDPGC	Rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020	Mae'r is-grŵp cyfathrebu wedi cychwyn gweithio ar rannu deunyddiau i ysgolion Gogledd Cymru.	
A6. Datblygu llwybr atgyfeirio clir er mwyn i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol amhriodol gael asesiad cymorth cynnar, fel yr argymhellwyd yng nghanllawiau 2016 y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE).	Grwpiau Cyflawni Lleol BDPGC	Rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020 Rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021	Bydd BDPGC yn sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i ddatblygu llwybr atgyfeirio.	

Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:				
Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:		Adrodd		
A5. Mae'r Byrddau Diogelu Plant yn adrodd ar weithgareddau a gynhaliwyd i hyrwyddo gwybodaeth i blant a rhieni/gofalwyr am gydb berthnasau iach/nad ydynt yn iach.		31 Ionawr 2021		Bydd yr is-grŵp cyfathrebu'n gwneud y gwaith.
A6. Mae'r Byrddau Diogelu Plant yn dweud fod llwybrau atgyfeirio lleol ac/neu ranbarthol yn eu lle i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol amhriodol.		31 Ionawr 2022		Pecyn gwaith y grŵp Tasg a Gorffen
Amcan 3: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a'r cyhoedd o sut i helpu cadw plant yn ddiogel rhag cael eu cam-drin yn rhywiol.				
Cam Gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni	Y Wybodaeth Ddiweddaraf	Statws Coch Melyn Gwyrdd
A12. Hyrwyddo gwybodaeth ac adnoddau ar gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin ar-lein i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd, gan gynnwys gwybodaeth y gall ymarferwyr ei rhannu â phlant a'u teuluoedd.	Grwpiau Cyflawni Lleol BDPGC	Rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020 Rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021	Byddwn yn defnyddio nifer o ddulliau i gwblhau'r gwaith hwn. Datblygu tudalennau gwe ar wefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.	
A13. Cefnogi ymarferwyr i ddysgu am gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-	Grwpiau Cyflawni Lleol BDPGC	Rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020	Tebyg i'r uchod.	

<p>drin ar-lein, gan gynnwys ymwybyddiaeth o ganllawiau, gweithdrefnau ac arweinyfrau ymarfer perthnasol. Dylai hyn gynnwys hybu dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol yng nghyd-destun materion cydraddoldeb ac amrywiaeth fel rhywedd, ethnigrwydd, rhywioldeb ac anabled.</p>		<p>Rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021</p>	<p>Byddwn yn cynnal cyfres o weithdai i ymarferwyr.</p>	
<p>Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:</p>		<p>Adrodd</p>		
<p>A12. Mae Byrddau Diogelu Plant yn dangos bod ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn ymwybodol o wybodaeth ac adnoddau ar gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin ar-lein, a'u bod yn rhannu'r wybodaeth hon yn briodol â phlant a theuluoedd.</p>		<p>31 Ionawr 2022</p>	<p>I ddangos tystiolaeth o'r gwaith hwn, byddwn yn defnyddio Fframwaith Sicrwydd Ansawdd BDGC</p>	
<p>A13. Mae Byrddau Diogelu Plant yn dangos cyfleoedd i ymarferwyr ddysgu am gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin ar-lein, a bod ymarferwyr yn manteisio ar y dysgu hwn.</p>		<p>31 Ionawr 2021 31 Ionawr 2022</p>	<p>Bydd yr is-grŵp gweithlu a hyfforddiant yn monitro presenoldeb mewn digwyddiadau dysgu.</p>	

Amcan 4: Mwy o ymwybyddiaeth o sut y gall diogelu corfforaethol gyfrannu at atal cam-drin plant yn rhywiol.				
Cam Gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni	Y Wybodaeth Ddiweddaraf	Statws Coch Melyn Gwyrdd
A15. Ystyried mabwysiadu polisi diogelu corfforaethol enghreifftiol	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021	Cyflwyniad i BDGC gan Dr Carlene Firmin ar Ddiogelu Cyd-Destunol	
A16. Ystyried dysgu o'r Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol ar gymdogaethau ac ystyried safle peilot rhanbarthol ar gyfer y pecyn cymorth Asesu Cymdogaeth.	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020 Rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021	Fel yr uchod	
Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:				
Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:		Adrodd		
A15. Mae'r Bwrdd Diogelu Plant yn adrodd fod y polisi diogelu corfforaethol enghreifftiol wedi'i ddsbarthu i bartneriaid i'w ystyried, a bod partneriaid wedi adolygu eu polisi diogelu corfforaethol presennol yn erbyn y polisi enghreifftiol.		31 Ionawr 2022	Bydd hwn yn cael ei ddsbarthu drwy'r Grwpiau Cyflawni Lleol	
A16. Mae'r Bwrdd Diogelu Plant yn adrodd bod yr hyn a ddysgwyd o'r Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol ar gymdogaethau wedi'i ddsbarthu i bartneriaid, a byddant yn adrodd a oes safle peilot rhanbarthol wedi bod neu i ddod ar gyfer Asesu Cymdogaeth.		31 Ionawr 2022	Mae gwaith wedi cychwyn ar Asesu Cymdogaeth mewn safle peilot yn Ynys Môn	

Trefniadau ar gyfer **Amddiffyn** plant mewn perygl o gael eu Cam-drin yn Rhywiol

Un o'r anawsterau wrth geisio amcangyfrif amllder achosion o gam-drin plant yn rhywiol yw bod cymaint o achosion o gam-drin rhywiol yn parhau i fod heb eu hadnabod. Mae'n anghyffredin i blant ddatgelu eu bod yn cael eu cam-drin, felly mae angen i weithwyr proffesiynol ac oedolion cyfrifol eraill allu adnabod arwyddion camdriniaeth bosib a chymryd camau priodol. Mae plant yn cadw'n dawel am nifer o resymau, gan gynnwys ofni'r sawl sy'n eu cam-drin, ddim eisiau i'r sawl sy'n eu cam-drin fod mewn trwbl, teimlo mai 'eu bai nhw' yw hi eu bod yn cael eu cam-drin, a theimlo'n gyfrifol am yr hyn fydd yn digwydd i'w teulu os byddant yn dweud wrth rhywun. Bydd cefnogi gwell dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol ymhlith plant, rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin ac ymarferwyr o gymorth i adnabod mwy o achosion a chael mwy o blant i ddatgelu er mwyn i blant gael eu hamddiffyn cyn gynted ag sy'n bosib.

Amcan 5: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith plant o ffyrdd diogel o ddatgelu cam-drin rhywiol neu berygl o gam-drin rhywiol, ac o'r hyn fydd yn digwydd pan fyddant yn dweud wrth rhywun.

Cam Gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni	Y wybodaeth ddiweddaraf	Statws Coch Melyn Gwyrdd
A18. Hyrwyddo adnoddau sy'n rhoi gwybodaeth i blant am ffyrdd diogel o godi llais ynghylch camdriniaeth.	Grwpiau Cyflawni Lleol BDPGC	Dyddiad cyhoeddi hyd at 31 Rhagfyr 2019 Rhng 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020 Rhng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021	Rydym wedi defnyddio adnoddau'r NSPCC a Barnardos i gyfleu'r negeseuon hyn.	
A20. Hyrwyddo adnoddau i blant ar yr hyn fydd yn digwydd os byddant yn dweud wrth oedolyn eu bod yn cael eu cam-drin.	Grwpiau Cyflawni Lleol BDPGC	Rhng 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020 Rhng 1 Ionawr 2021 a	Rydym wedi bod yn dosbarthu deunyddiau mewn Gweithdai Addysg.	

		31 Rhagfyr 2021		
Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:	Adrodd			
A18. Mae Byrddau Diogelu Plant yn adrodd tystiolaeth o hyrwyddo adnoddau i blant ar ffyrdd diogel o godi llais ynghylch camdriniaeth.	31 Ionawr 2020 31 Ionawr 2021 31 Ionawr 2022	Yn ystod 2019, buom yn ymgysylltu â Phlant dan Fygythiad / plant anodd eu cyrraedd i gyfleu'r negeseuon hyn. Hoffai Plant a Phobl Ifanc i BDPGC ddatblygu ap diogelu yn y rhanbarth.		
A20. Mae Byrddau Diogelu Plant yn adrodd tystiolaeth o hyrwyddo adnoddau i blant ar yr hyn fydd yn digwydd os byddant yn dweud wrth oedolyn eu bod yn cael eu cam-drin.	31 Ionawr 2022	Byddwn yn monitro hyn drwy ddefnyddio fframwaith sicrhau ansawdd BDPGC.		

Amcan 6: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin o'r hyn a ddylai ddigwydd os bydd plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol, o sut i helpu plant ac o sut i gael cymorth iddynt eu hunain.

Cam Gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni	Y wybodaeth ddiweddaraf	Statws Coch Melyn Gwyrdd
A22. Hyrwyddo adnoddau ar gyfer rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin ar y broses sy'n ymwneud ag ymchwilio i achos o gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol, ar y ffyrdd gorau o helpu plant ac ar ffynonellau cymorth a chefnogaeth i rieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin.	Grwpiau Cyflawni Lleol BDPGC	Rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021	Byddwn yn edrych ar ddatblygu deunyddiau fydd ar gael i deuluoedd/rhieni ynglŷn â negeseuon allweddol.	
Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:				
Adrodd				
A22. Mae Byrddau Diogelu Plant yn adrodd tystiolaeth o hyrwyddo adnoddau'n briodol i rieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin.		31 Ionawr 2022	Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy fframwaith SA BDGC	

Amcan 7: Bod ymarferwyr yn gallu cael gafael ar adnoddau a hyfforddiant i'w paratoi ar gyfer ymateb yn effeithiol, yn amserol ac yn briodol i blant sy'n wynebu risg neu sydd wedi dioddef camdriniaeth rywiol.

Cam Gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni	Y wybodaeth ddiweddaraf	Statws Coch Melyn Gwyrdd
A24. Cefnogi ymarferwyr i ddysgu sut i ymdrin â datgeliadau o gam-drin plant yn rhywiol, am y broses ymchwilio a sut i helpu teuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol.	Grwpiau Cyflawni Lleol BDPGC	Rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021	Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ledled y rhanbarth yn 2019 – gweithdai NSPCC ar ymdrin â datgeliadau.	
Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:				
		Adrodd		
A24. Mae Byrddau Diogelu Plant yn dangos cyfleoedd i ymarferwyr ddysgu sut i ymdrin â datgeliadau o gam-drin, am y broses ymchwilio a sut i helpu teuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol, ac yn dangos bod ymarferwyr yn manteisio ar y dysgu hwn.		31 Ionawr 2022	Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy fframwaith SA BDGC	

Trefniadau ar gyfer **Cynorthwyo** plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol

Mae cam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol yn gallu cael effaith negyddol ar ganlyniadau llesiant plant ymhell wedi iddynt dyfu'n oedolion, ac mae'n gwneud hynny'n aml. Rhaid i'n hymatebion ni i blant gynnwys cymorth ar sail tystiolaeth sy'n debygol o'u helpu i ddod dros y trawma sy'n gysylltiedig â chamdriniaeth, i fagu gwydnwch ac i sicrhau gwelliannau mwy hirdymor i'w llesiant.

Amcan 8: Casglu tystiolaeth o ba mor aml y mae achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn digwydd, er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol.

Cam Gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni	Y wybodaeth ddiweddaraf	Statws Coch Melyn Gwyrdd
A26. Ystyried goblygiadau canfyddiadau gwaith ymchwil <i>Datgelu graddfa cam-drin plant yn rhywiol mewn cofnodion gofal cymdeithasol: Astudiaeth Cymru</i> wrth adolygu amllder tebygol achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn y rhanbarth.	Grwpiau Cyflawni Lleol BDPGC	Rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020 Rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021	Y gwaith ymchwil i gael ei rannu gyda'r holl Grwpiau Cyflawni Lleol yng Ngogledd Cymru. Hefyd i'w drafod yn nigwyddiadau dilyniant ymarfer cam-drin plant yn rhywiol BDGC.	

Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:		Adrodd		
A25: Caiff adroddiad a chanfyddiadau gwaith ymchwil <i>Datgelu graddfa cam-drin plant yn rhywiol mewn cofnodion gofal cymdeithasol: Astudiaeth Cymru</i> eu cyhoeddi a'u lledaenu.		Dyddiad cyhoeddi hyd at 31 Rhagfyr 2019	Bydd hyn yn cael ei fonitro gan ddefnyddio fframwaith SA BDGC	
A26. Mae'r Byrddau Diogelu Plant yn nodi eu bod wedi ystyried goblygiadau'r gwaith ymchwil wrth adolygu amlder tebygol achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn y rhanbarth, ac unrhyw gamau gweithredu arfaethedig o ganlyniad i hyn.		Rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021		
Amcan 9: Bod plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, wedi dioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant ac/neu wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, yn gallu cael gafaél ar wasanaethau sy'n cael eu llywio gan drawma a chymorth therapiwtig priodol sydd wedi'i seilio ar eu hanghenion gofal a chymorth unigol, er mwyn gwella eu llesiant a'u hatal rhag cael eu cam-drin eto.				
Cam Gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni	Y wybodaeth ddiweddaraf	Statws Coch Melyn Gwyrdd
A30. Cynnal adolygiad o'r cymorth therapiwtig sydd ar gael i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, wedi	Grwpiau Cyflawni Lleol BDPGC	Rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020	Rydym wedi cyflawni'r gwaith hwn drwy fframwaith ymddygiad rhywiol niweidiol yr NSPCC. Byddwn yn cynnal gwaith archwilio pellach ar y pecyn gwaith hwn.	

dioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol neu gam-drin ar-lein yn y rhanbarth, fel y gellir nodi a mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth.		Rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021		
Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:	Adrodd			
A30. Mae'r Byrddau Diogelu Plant yn nodi bod adolygiad wedi'i gwblhau a'i ystyried gan y Bwrdd, a bydd yn adrodd am unrhyw gynlluniau datblygu rhanbarthol a ddaw yn sgil hyn.	31 Ionawr 2022	Bydd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu yn 2022.		
Amcan 10: Bod plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn cael gwybodaeth am wasanaethau cymorth i oedolion ac yn cael eu hatgyfeirio'n briodol i'r gwasanaethau hyn wrth iddynt gyrraedd 18 mlwydd oed.				
Cam Gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni	Y wybodaeth ddiweddaraf	Statws Coch Melyn Gwyrdd
A32. Hyrwyddo adnoddau i blant sy'n cyrraedd 18 mlwydd oed ar gael	Grwpiau Cyflawni Lleol BDPGC	Rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021	Rydym wedi cychwyn ar y gwaith o edrych ar y broses	

cymorth fel oedolion sydd wedi goroesi camdriniaeth.			bontio rhwng systemau diogelu plant ac oedolion. Drwy hyfforddiant ar Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan a drwy waith a wnaed ar yr arweinyfrau ymarfer, byddwn yn amlygu'r broses bontio i ymarferwyr.	
Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:	Adrodd			
A32. Mae Byrddau Diogelu Plant yn adrodd tystiolaeth fod adnoddau i blant sy'n cyrraedd 18 mlwydd oed ar gael cymorth fel oedolion sydd wedi goroesi camdriniaeth wedi cael eu hyrwyddo i ymarferwyr a'r cyhoedd.	31 Ionawr 2022		Bydd hyn yn cael ei fonitro gan ddefnyddio fframwaith SA BDGC	